




Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid

Rhaglen Adfywio Bywyd y Bae 2014-17





Bywyd y Bae
Bay Life

Cynnwys



- 1.....Cefndir
- 2.....Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP)
- 3.....Ardal a Chyllid Rhaglen VVP
- 4.....Prosiectau ac Allbynnau
 - a.....Adnewyddu Tai
 - b.....Lle i fyw
 - c.....Cam 2 Glan y Môr
 - d.....Cynllun Etifeddiaeth Trefwedd
 - e.....Cronfa Grant Cymunedol
- 5.....Prosiectau Adfywio Eraill (nad ydynt yn VVP)



1. Cefndir

Sefydlwyd Rhaglen Adfywio Bywyd y Bae yn 2008, gan alluogi Bae Colwyn i elwa o fuddsoddiad sylweddol mewn prosiectau adfywio mawr; yn cynnwys Cam 1 o'r Prosiect Glan y Môr; Canolfan Chwaraeon Dŵr Porth Eirias; ailddatblygu Parc Eirias; prynu a dymchwel adeilad Neuadd y Farchnad, ac ailwampio Theatr Colwyn.

Y weledigaeth ar gyfer Bae Colwyn wedi'i adfywio oedd:

'Tref lewyrchus, ddeniadol a bywiog sy'n estyn croeso, yn ddiogel ac yn gyfeillgar; tref gyda chymeriad unigryw y mae pobl yn falch o fyw ynddi'.

Pe byddai'r weledigaeth am gael ei gwireddu a bod y cymunedau o fewn y dref yn mynd i ffynnu yn y dyfodol, roedd yn amlwg bod y Rhaglen angen cydbwysedd o fentrau i fynd i'r afael â materion iechyd, economaidd, sgiliau, tai ac amgylcheddol. Roedd yr un mor glir bod angen i'r Rhaglen fod yn un tymor hir i wireddu'r newidiadau gofynnol.

Cytunwyd ar nifer o Ffactorau Llwyddiant Critigol i fesur llwyddiant y Rhaglen Adfywio:

1. Nad oes unrhyw ward ym Mae Colwyn wedi'i chynnwys yn y 10% o wardiau mwyaf amddifad, yn enwedig ar gyfer tai, cyflogaeth, incwm ac iechyd - nid yw Ward y Rhiw yn cael ei dynodi bellach yn ardal o amddifadedd ac mae Ward y Glyn yn gwneud cynnydd da.
2. Dylai diweithdra cyffredinol ac ieuencid fod yn unol â chyfartaledd y sir - mae canrannau a niferoedd diweithdra ieuencid wedi gostwng, gyda mwy o bobl yn symud at hunangyflogaeth o ddiweithdra.
3. Gostyngiad yn nifer yr unedau manwerthu gwag i 25 - gostyngodd nifer yr unedau gwag o flwyddyn i flwyddyn, tan 2016. Yn 2017, tynnodd tair cadwyn genedlaethol yn ôl o'r dref; fodd bynnag, mae rhagolygon sy'n gysylltiedig â datblygiad swyddfeydd cyngor newydd, Coed Pella, yn awgrymu y bydd y sefyllfa'n newid yn sylweddol o 2018 ymlaen.
4. Cynnydd yn nifer y masnachwyr annibynnol yng nghanol y dref i 160 – mae'r ffigur bellach yn 170, adlewyrchiad clir o ysbryd entrepreneuriaid y dref a'i gallu i sefyll allan ymhlith trefi/strydoedd mawr eraill.
5. Cynnydd tymor hir yn nifer y gwelyau i dwristiaid i 560 - mae hyn eisoes wedi cyrraedd 390, a bydd prosiectau posibl sy'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd yn cyfrannu at gyflawni'r targed hwn.
6. Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn niferoedd ymwelwyr – cynnydd amlwg yn nifer y bobl sy'n mwynhau'r traeth newydd a'r promenâd. Mae ymwelwyr â Phorth Eirias wedi cynyddu o 136% ers 2014 ac mae nifer y trwyddedau llithrfa wedi tyfu i 2252, cynnydd o 332%. Denodd cyngerdd Parc Eirias 2017 26,000 o ffans cerddoriaeth i Fae Colwyn, gan gynhyrchu £295,000 yn ychwanegol at siopau, tafarndai, bwytai a chaffis yr ardal. Fe wnaeth y ffans cerddoriaeth yma hefyd wario £70,000 yn ychwanegol ar westai, gwely a brecwast, llety gwesty, safleoedd gwersylla a pharciau carafanau.
7. Nad oes unrhyw gartref yn yr Ardal Adnewyddu mewn cyflwr gwael – mae 70% o'r stoc tai wedi elwa o waith effeithlonrwydd ynni neu welliannau.
8. Lleihau cyfraddau troseddau o flwyddyn i flwyddyn – mae data heddlu o 2014 tan 2017 yn dangos gostyngiad mewn difrod troseddol (gostyngiad o 112 i 85 digwyddiad) ac anhrefn cyhoeddus (gostyngiad o 26 i 22 digwyddiad).



2. Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP)

Yn 2014, dyfarnwyd £12 miliwn i Fae Colwyn gan Lywodraeth Cymru, o gronfa adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP). Roedd y dyfarniad yn hwb anferthol i Raglen Adfywio Bywyd y Bae ac yn cydnabod gallu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'i bartneriaid i gyflawni rhaglen i adfywio Bae Colwyn.

Rhwng 2014 a 2017, mae arian y VVP wedi'i ddefnyddio i wella'r lan y môr ymhellach; i wella tai yn yr Ardal Adnewyddu; ac i wella eiddo allweddol yng nghanol y dref. Mae gwerth cyfanswm y buddsoddiad dros £34m, gyda buddsoddiad cyhoeddus a phreifat yn cefnogi cyllid Llywodraeth Cymru.

Y nod oedd cyflawni amrediad cynhwysfawr o fuddion i gymunedau ym Mae Colwyn, fel bod:

- Pobl yn y dref yn cael y cyfle i gael eu haddysgu a dysgu'r sgiliau i'w galluogi i gyflawni eu potensial llawn.
- Pobl yn y dref gyda chartrefi diogel ac addas sydd wedi'u gwella, gyda mynediad lleol at wasanaethau cymorth.
 - Pobl yn y dref yn iach, diogel, egniol ac annibynnol ac yn well o ran eu lles.
 - Y dref gydag economi ffyniannus, gynaliadwy a llewyrchus ac mae'n lle gwych i fyw, gweithio ac ymweld ag o.
 - Y dref gydag amgylchedd ffisegol a naturiol a reolir yn ofalus er mwyn gallu defnyddio ei botensial i'r eithaf ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.
 - Y dref yn lle hawdd i deithio ynddi, i'w chyrraedd ac i anturio.
 - Mae Bae Colwyn yn gymuned gydlynol sy'n cael gwybodaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am brosiectau adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, sydd wedi digwydd ym Mae Colwyn.



Bae Colwyn

Tref ffyniannus, ddeniadol a bywiog, sy'n groesawgar, yn ddiogel ac yn gyfeillgar; lle gyda chymeriad unigryw y mae pobl yn falch o fyw ynddo.

3. Ardal a Chyllid Rhaglen VVP



	2014/15	2015/16	2016/17	Cyfanswm
Cyllideb VVP a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru	£3,023,000	£4,094,000	£4,905,000	£12,022,000
Cyllid ar y gweill ychwanegol VVP a ddyfemir gan LIC*	£0	£370,000	£1,432,003	£1,802,003
CYFANSWM	£3,023,000	£4,464,000	£6,337,003	£13,824,003

*Cyllid ychwanegol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei ddyfarnu yn ystod y rhaglen.

4. Prosiectau ac Allbynnau

a. Adnewyddu Tai

Roedd y cynllun yn targedu buddsoddiad yn yr ardal adnewyddu tai yng ngogledd Bae Colwyn i wella ansawdd y tai yn yr ardal, gwella effeithlonrwydd ynni, a lleihau biliau gwresogi'r cartref.

Roedd y gwaith yn cynnwys:

- Inswleiddio Waliau Allanol / Mewnol.
- Disodli ffenestri a drysau allanol yn ôl y gofyn.

At ei gilydd, mae cyfanswm o 343 eiddo preswyl wedi'u gwella gyda 48.64GWh (awr Gigawatt) wedi'u harbed, gan gynrychioli gostyngiad o 10,074 tonnall mewn allyriadau CO2.

Mae'r Cynllun Adnewyddu Tai wedi profi i fod yn llwyddiannus, gan drawsnewid teimlad yr ardal a chynhyrchu adborth cadarnhaol.

Cyllid Adnewyddu Tai

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18+	Cyfanswm
VVP	£1,882,373	£1,909,240	£1,781,387	-	£5,573,000
Cyllid arall*	£565,000	£86,000	£75,000	£448,000	£1,174,000

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, cyfraniadau Perchnogion Eiddo, Grant ECO i'r Eithaf Llywodraeth Cymru, Grant Tai Penodol Llywodraeth Cymru.*

Astudiaeth Achos

I wella effeithlonrwydd ynni cartref Mr a Mrs Lea ym Mhendorian, cafodd yr eiddo ei osod gyda drws ffrynt cyfansawdd newydd, inswleiddio wal allanol a system awyru. Yn ogystal, i wella estheteg eu cartref, cafodd y brics eu glanhau a gosodwyd pibellau dŵr glaw a gwastraff newydd. Rhannodd Mrs Lea ei phrofiad o'r gwaith a wnaed ar ei chartref. Dywedodd: "Rydw i'n falch iawn o ansawdd y gwaith. Fe weithiodd TPS yn effeithlon, yn sydyn ac yn broffesiynol. Roedd y gweithwyr yn gwrtais ac yn glên iawn. Doedd gen i ddim cwynion amdanynt o gwbl. Fe wnaethant gadw'r ardal yn lân a thaclus ac fe wnaed popeth yn iawn. Roedd y cyfathrebu'n wych cyn ac yn ystod y gwaith. Roeddwn i bob amser yn gallu cael gafael ar rywun ac roedd ymholiadau'n cael eu datrys yn sydyn. Byddwn yn fwy na bodlon i TPS gynnal mwy o waith ar fy nghartref a byddwn yn sicr yn eu hargymell i ffrindiau a theulu."

Allbynnau

Gwirioneddol

Nifer yr aelwydydd a gafodd gymorth i ddiogelu gwelliant ym mherfformiad ynni eu cartrefi

343

Nifer y swyddi a grëwyd yn y sector adeiladu o ganlyniad i fuddsoddiad adfywio Llywodraeth Cymru

23

Amcangyfrif o ostyngiad ychwanegol allyriadau carbon, drwy fuddsoddiad adfywio (tunelli o CO₂)

10074

Ynni a arbedwyd (o oriau Gigawatt GWh)

48.64

Nifer yr unigolion a enillodd gymhwyster yn ymwneud â chyflogaeth

86

Nifer yr unigolion economaidd anweithgar a gyflogwyd neu a oedd ynghlwm wrth y prosiect

11

Nifer y busnesau bach a chanolig Cymreig a lwyddodd i ennill contractau

31

Gwastraff a ostyngodd, a ail-ddefnyddiwyd neu a ailgylchwyd (tunelli)

160



b. Lle i fyw

Roedd y cynllun Lle i Fyw yn anelu at fynd i'r afael ag eiddo gwag nad oedd yn cael eu defnyddio ddigon, yn yr ardal adnewyddu tai, ac o'i chwmpas, ac yng nghanol y dref. Mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, mae nifer o eiddo gwag problemus wedi'u prynu a'u hail-wampio/hail-ddatblygu i ddarparu llety fforddiadwy, o ansawdd da, sydd wir eu hangen. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Chwe uned tai fforddiadwy a ddatblygwyd ar safle'r hen Dai Amlfeddiannaeth (HMO) ar Lawson Road.
- Deuddeg uned fforddiadwy ar safle'r hen eiddo gwag yn 118-126 Ffordd Abergele.
- Chwe uned tai cymdeithasol a grëwyd yn hen swyddfeydd 94 Ffordd Conwy.

Cyllid Lle i Fyw

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18+	Cyfanswm
VVP	£494,119	£775,785	£929,095	-	£2,198,999
Cyllid arall*	0	£441,000	£1,000	£1,836,000	£2,278,000

*Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cartrefi Conwy, Pennaf, Tai Gogledd Cymru, adran106.

Astudiaeth Achos

Cafodd plasty o'r cyfnod Edwardaidd ei drawsnewid a'i ail-drosi o'i ddefnydd blaenorol fel bloc o swyddfeydd i mewn i chwe chartref fforddiadwy ar 94 Ffordd Conwy. Fel swyddfeydd, roedd yr adeilad yn aneffeithlon ac yn gamweithredol, ac nid yn ddeniadol yn fasnachol nac yn opsiwn hyfwrw ar gyfer dibenion buddsoddi. Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gais fel rhan o VVP i drosi 94 Ffordd Conwy'n ofod preswyl. Datblygodd Cartrefi Conwy chwe fflat mawr newydd, dros dri llawr. Mae gan bob un ddwy ystafell wely ynghyd â naill ai lolfa ar wahân neu lolfa / cegin, ac maent yn cynnwys y systemau gwresogi ac insiwleiddio diweddaraf.

Allbynnau	Gwirioneddol
Nifer y swyddi yn y sector adeiladu o ganlyniad i fuddsoddiad adfywio Llywodraeth Cymru	43 swydd a gefnogwyd a 2 swydd a grëwyd
Hectar o dir a ddatblygwyd - arall	1.25
Nifer yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd (Wedi'u hadeiladu neu'n barod i'w meddiannu - o ganlyniad uniongyrchol i gefnogaeth VVP)	18
Nifer y tai gwag sy'n cael eu defnyddio eto drwy weithrediad awdurdodau lleol	137
Nifer y busnesau bach a chanolig Cymreig a lwyddodd i ennill contractau	11

c. Cam 2 Glan y Môr

Gan adeiladu ar lwyddiant cam un y prosiect – dyrannwyd cyllid VVP, Croeso Cymru, yr Uned Ewropeaidd ac Amddiffynfa Arfordirol i wella adran o'r lan y môr, o Pier Fictoria i Arglawdd Cayley.

Roedd Cam 2 o'r cynllun yn canolbwyntio ar wella bron i gilomedr o bromenâd, gan greu pentir ar gyfer caffi glan y môr newydd, gwella mynediad at y traeth, a darparu rhagor o seddi.

Mae preswylwyr ac ymwelwyr yn gallu mwynhau gofod cyhoeddus sydd wedi gwella llawer, yn ogystal â'r ceir sicrwydd y bydd y gwaith amddiffyn arfordirol yn amddiffyn y dref.



Cyllid Glan y Môr Cam 2

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18+	Cyfanswm
VVP	£161,454	£1,075,486	£2,813,060	-	£4,050,000
Cyllid arall*	£15,000	£55,000	£684,000	£2,026,000	£2,780,000

*Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop, Arian Cyfatebol wedi'i Dargedu gan Groeso Cymru.

Astudiaeth Achos

Mae Mike a Lesley Lewis yn berchen ar Westy'r Colbourn ar Sea Bank Road. Fe wnaethant ddweud: "Mae hi wedi bod yn haf prysur iawn, a dim ond adborth cadarnhaol ydym wedi'i gael ar y prom gan ein holl westeion sydd wedi dod o bob cwr o'r byd. Mae sawl un o'n gwesteion eisoes wedi archebu i ddod yma i aros eto'r flwyddyn nesaf. Rydym hefyd wedi sylwi ar westeion yn aros yn fymryn hirach eleni, sydd o fudd i'r ardal gyfan, o atyniadau twristiaid, bwytai, tafarndai a siopau lleol. Mae'n welliant gwych i Fae Colwyn."

Allbynnau	Gwirioneddol
Nifer y swyddi a ddarparwyd (a grëwyd neu a alluogwyd drwy'r buddsoddiad adfywio)	6 (bydd yn dilyn gydag adeiladu'r adeilad consesiwn y flwyddyn nesaf)
Nifer y swyddi a grëwyd yn y sector adeiladu o ganlyniad i fuddsoddiad adfywio Llywodraeth Cymru	20
Buddsoddiad isadeiledd ychwanegol a ryddhawyd drwy brosiectau adfywio (£oedd)	£4.15m
Nifer y bobl a gafodd gefnogaeth i weithio (Uniongyrchol neu anuniongyrchol)	4
Hectar o dir a ddatblygwyd - arall	1.5
Eiddo Busnes a grëwyd neu a ailwampwyd (m ²)	80m ² - adeiladu adeilad consesiwn
Nifer sy'n cwblhau cyrsiau cysylltiedig â chyflogaeth	40
Buddsoddiad a ysgogwyd (£oedd)	£4,200,000

d. Cynllun Etifeddiaeth Trefwedd (CET)

Mae prosiect CET Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn anelu at wella ymddangosiad cyffredinol a bywiogrwydd y dref, gyda chynllun adfer ac adnewyddu sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth, digwyddiadau cymunedol a mentrau busnes. Mae prosiectau CET yn cael adnoddau ar sail partneriaeth.

Mae Cynllun Etifeddiaeth Trefwedd Bae Colwyn wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi cael adborth cadarnhaol ynghylch ei gyfraniad tuag at adfywiad cyffredinol y dref. Mae wedi gweithredu o fewn y gyllideb a chyfyngiadau amser.

Hyd yn hyn, mae deg prosiect blaenoriaeth wedi'u cwblhau, yn cynnwys yr Orsaf; Siop Goffi a Bistro Porter's; Matthews and Son Hardware ac Arkwrights. Mae dwy ar bymtheg menter partneriaethau cymunedol wedi'u cwblhau, gyda'r rhai mwyaf sylweddol yn cynnwys Grŵp Treftadaeth y Dref a'r Siop Pop-yp a gafodd gefnogaeth VVP dros ddwy flynedd. Mae'r Siop Pop-yp wedi cefnogi sefydliad wyth busnes a masnachu prawf sawl busnes arall.

Cyllid Cynllun Etifeddiaeth Trefwedd


	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18+	Cyfanswm
VVP	£455,054	£664,946	£546,102	-	£1,666,102
Cyllid arall*	£130,000	£187,000	£148,000	£501,000	£966,000
Cyfraniadau perchnogion eiddo					£2,059,031

*Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, CADW, Treftadaeth y Loteri.

Astudiaeth Achos

Roedd gwaith adeiladu hanfodol, yn cynnwys to newydd, ailwampio ffenestri ac adfer blaen siop wreiddiol, yn golygu bod yr adeilad tri llawr yn Station Court unwaith eto'n barod i agor ei ddrysau. Os ydych yn ymweld â'r adeilad heddiw, byddwch yn gweld Siop Goffi a Bistro Porter's ar y llawr gwaelod. Wedi'i enw ar ôl pensaer gwreiddiol yr adeilad, mae ei rôl yn y gymuned yn llawer mwy na man i yfed a bwyta'n unig. Mae'r siop goffi'n cynnal sawl rhaglen hyfforddi a chyflogaeth; mae'r rhan fwyaf o'r staff arlwyo a gweini'n wirfoddolwyr, yn gweithio i ennill profiad a chymwysterau gwerthfawr i'w helpu i ddiogelu cyflogaeth barhaol yn yr ardal. Mae menter gymdeithasol arall yn digwydd ar y llawr cyntaf a'r ail llawr, lle mae CAIS yn cynnig yr ystafelloedd sydd newydd eu hadnewyddu i'w llogi fel man i gynnal cyfarfodydd/cynadleddau.

Allbynnau	Gwirioneddol
Nifer yr hyfforddeion ar y prosiect	12
Nifer y swyddi a ddarparwyd (a grëwyd neu a alluogwyd drwy'r buddsoddiad adfywio)	65
Swyddi gros a grëwyd	81
Buddsoddiad a ysgogwyd (nad oedd yn gyllid VVP) (£oedd)	£933,052.90
Nifer y mentrau a ddarparwyd	31
Eiddo Busnes a grëwyd neu a ailwampwyd (m ²)	2400m ²
Nifer y busnesau bach a chanolig Cymreig a lwyddodd i ennill contractau	8
Cost y deunyddiau ailgylchu a ddefnyddiwyd ar y prosiect (£oedd)	£10,000.00





e. Cronfa Grantiau Cymunedol

Defnyddiwyd buddsoddiad Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid i greu cronfa grant cyfalaf bach i grwpiau cymunedol yn ardal Bae Colwyn. Roedd y cynllun yn darparu cyllid craidd a chefnogaeth i helpu grwpiau cymunedol i roi cynnig ar gyfer cyllid arall.

Dros y tair blynedd, mae deg ar hugain grŵp cymunedol a deuddeg ar hugain prosiect unigol wedi cael cefnogaeth gan y cynllun, yn cynnwys gwelliannau man agored; offer ar gyfer chwaraeon cadair olwyn; bws mini ac offer chwaraeon i grwpiau lleol.

Cyllid Cynllun Grantiau Cymunedol

	2014/15	2015/16	2016/17	Total
VVP	£30,000	£38,543	£44,359	£112,902
Cyllid arall*	£32,000	£146,000	£85,000	£263,000

*Cyngor Tref Bae Colwyn, cyfraniadau Ymgeiswyr y Grant.

Astudiaeth Achos

Cafodd Clwb Bowls Hen Golwyn grant gan y Gronfa Gymunedol i ddarparu cyfleusterau toiled i bobl anabl, nad oedd wedi bod ar gael cyn hynny. Dywedodd Joan Simpson, Ysgrifennydd y Clwb, "Mae'r cyfleusterau newydd wedi'u gwerthfawrogi'n fawr gan aelodau'r clwb ac aelodau anabl o dimau sy'n ymweld. Diolch yn fawr iawn i Gronfa Gymunedol Bae Colwyn am eu cyfraniad tuag at gost y prosiect."

Allbynnau	Gwirioneddol
Buddsoddiad a ysgogwyd (nad oedd yn gyllid VVP) (£oedd)	£263,383.87
Nifer y mentrau cymunedol a gefnogwyd: Addysg a Hyfforddiant	15
Nifer y mentrau cymunedol a gefnogwyd: Iechyd	12
Nifer y mentrau cymunedol a gefnogwyd: Pobl Ifanc	15
Nifer y busnesau bach a chanolig Cymreig a lwyddodd i ennill contractau**	21

**Dyrannwyd gwariant o Gronfa Gymunedol VVP i Brosiectau Cymunedol yn seiliedig ar eu teilyngdod o fewn pob cymuned, dewiswyd y contractwr gan y grŵp cymunedol unigol.

5. Prosiect adfywio eraill (nad ydynt yn rhai VVP) ym Mae Colwyn

Eirias

Crëwyd y Rhaglen Ddigiwyddiadau yn Eirias o dan raglen Ardal Adfywio Strategol Llywodraeth Cymru. Ers hynny, mae'r cyfleuster wedi mynd o nerth i nerth gyda chefnogaeth Undeb Rygbi Cymru a chyrrff chwaraeon cenedlaethol eraill. Mae calendr llawn o ddigiwyddiadau cymunedol ac adloniant wedi'i ddatblygu i ategu at y gweithgareddau chwaraeon. Er enghraifft, denodd cyngerdd 2017 26,000 o ffans cerddoriaeth i Fae Colwyn, gan gynhyrchu £295,000 yn ychwanegol at siopau, tafarndai, bwytai a chaffis yr ardal.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg y Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu Canolfan Iechyd ym Mharc Eirias i wella a chefnogi iechyd a lles preswylwyr lleol. Mae'r Ganolfan Iechyd wedi cael ei nodi fel arfer da yn genedlaethol, gyda'r model hwn yn cael ei hyrwyddo a'i gyflwyno mewn mannau eraill yng Ngogledd Cymru.

Cymunedau yn Gyntaf

Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi perfformio'n dda yn erbyn ei dargedau gwreiddiol, gyda'r holl weithgareddau a gynlluniwyd yn cael eu cyflawni mewn pryd ac o fewn y gyllideb. Drwy gydol y rhaglen, roedd 1182 o gyfranogwyr unigryw wedi ymgysylltu â 723 sesiwn. Wrth i'r rhaglen ddod i ben, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn parhau i weithio i sicrhau bod anghenion y gymuned leol yn cael eu cefnogi drwy brosiectau Cronfa Etifeddol Cymunedau yn Gyntaf. Bydd adroddiad diwedd rhaglen ar gael, yn tynnu sylw at lwyddiannau dros oes y prosiect.

Strategaeth Gofod Swyddfa

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal adolygiad o'i adeiladau ac yn edrych am ffyrdd i weithredu'n fwy effeithlon, drwy grynhoi staff a gwasanaethau mewn llai o safleoedd. Fe wnaeth y Cyngor benodi Muse Developments Ltd i ddarparu gofod swyddfa newydd yng nghanol Bae Colwyn ac i ailddatblygu adeilad yr hen Ganolfan Ddinesig. Bydd y Cyngor yn rhentu'r swyddfa newydd wedi'i dodrefnu, a fydd yn disodli hyd at un deg tri eiddo aneffeithlon, sy'n perfformio'n wael.

Mae'r datblygiad swyddfa'n cefnogi adfywiad canol tref Bae Colwyn:

- Bydd dod â phobl i mewn i ganol Bae Colwyn yn dod â bywiogrwydd, nifer ymwelwyr a gwariant ychwanegol a ragwelir yn y dref o hyd at £1m gan bobl sy'n defnyddio'r adeilad newydd hwn.
- Yn ystod y gwaith adeiladu, bydd dros bum o gyfanswm gwerth y contractau wedi'u dyfarnu i gwmnïau lleol gan y prif gontractwr Bowmer & Kirkland.

Canolfan Gofal Iechyd

Mae'r ganolfan feddygol newydd ar safle hen ysgol Fabanod Ffordd Conwy. Gwerthodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yr hen ysgol i Haven Health at y diben penodol o ddatblygu canolfan gofal iechyd sylfaenol i ddwy feddygfa leol. Mae hyn yn cynnig ateb perffaith i ddau broblem: gwaredu'r hen adeilad ysgol a dod o hyd i leoliad addas i'r meddygon. Fe wnaeth y prosiect hwn sicrhau bod y safle'n parhau i gael defnydd cymunedol, drwy gynnig ystod eang o wasanaethau iechyd i breswylwyr yn yr ardal. Drwy ail-ddenyddio safle wedi'i ddatblygu unwaith eto, mae'r datblygiad yn ategu at raglen adfywio barhaus Bae Colwyn.

Datblygiad Ocean View

Roedd safle hen Westy Rothesay ar y promenâd, gyferbyn â Cham 2 o'r gwaith glan y môr, wedi dirywio ac nid yn gweithredu fel gwesty. Buddsoddodd y sector preifat dros £5m i ailddatblygu'r safle yn adeilad mawr o bedwar deg fflat o'r enw Ocean View.

Ardal Gwella Busnes Colwyn

Nododd Llywodraeth Cymru Fae Colwyn fel ardal y maent yn dymuno ei chefnogi i ddatblygu Ardal Gwella Busnes. Yn Nhachwedd 2015, fe wnaeth busnesau o bob rhan o Fae Colwyn bleidleisio o blaid creu Ardal Gwella Busnes. Mae AGB Colwyn yn cynnwys Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn, Hen Golwyn a Mochdre ac yn rhoi cyfle i fusnesau lunio dyfodol yr ardal ac adeiladu ar fuddsoddiadau diweddar. Mae'r AGB yn anelu at ddatblygu a hyrwyddo cryfderau a nodweddion Bae Colwyn ar gyfer hamdden a busnes, a chodi ymwybyddiaeth o'i sectorau busnes. Mae'r AGB hefyd yn cynnig cymorth busnes wedi'i dargedu i'w 860 o dalwyr ardoll.

